Rhif: WG27990

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd a graddau peirianneg, technoleg neu gyfrifiadureg rhan-amser

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mawrth 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Mai 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

# Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd a graddau peirianneg, technoleg neu gyfrifiadureg rhan-amser

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i gymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd a rhai graddau STEM rhan-amser.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn **26 Mai 2016** fan bellaf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau

**Manylion Cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Adran Addysg Uwch
Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael

eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Beth yw'r prif faterion?** **2**

**A. Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd** **3**

Y sefyllfa bresennol 3

Y ddadl o blaid newid 8

Ein cynnig 11

Effaith 15

Gweithredu 15

**B. Astudio blaenorol a chymorth ar gyfer astudiaethau rhan-amser** **16**

Y sefyllfa bresennol 16

Y ddadl o blaid newid 16

Ein cynnig 17

Effaith 18

Gweithredu 19

# Beth yw'r prif faterion?

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn:

- cyrsiau ôl-radd; a
- chyrsiau gradd rhan amser.

2. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu cymorth i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru[1] sy'n dilyn cyrsiau ôl-radd, ac maent yn gofyn am safbwyntiau ar bolisi interim. Bydd adroddiad *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*[2], a gadeiriwyd gan yr Athro Syr Ian Diamond ('adolygiad Diamond'), yn cael ei gyhoeddi yn 2016, a bydd yn cynnwys ystyriaeth i gymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn rhagdybio canlyniad adolygiad Diamond, ond maent yn bwriadu datblygu polisi interim.

3. Fel arfer nid yw myfyrwyr gyda gradd israddedig yn gymwys i dderbyn cymorth er mwyn ymgymryd â mwy o astudiaethau israddedig, fel y gellir blaenoriaethu cymorth i rai nad oes ganddynt radd gyntaf. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn ystyried cyflwyno esemptiad ar gyfer rhai sy'n dymuno astudio'n rhan amser ar gyfer gradd mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg neu Fathemateg (STEM). Byddai hyn yn cyfrannu at ddatblygu gwell cronfa sgiliau mewn diwydiannau sy'n dibynnu ar sgiliau STEM.

4. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud newidiadau i gymorth i fyfyrwyr yn flynyddol, ac nid y rhain yw'r unig newidiadau i gymorth i fyfyrwyr sy'n cael eu hystyried ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Efallai y bydd mwy o ymgynghori yn cael ei gynnal.

5. Ymdrinnir â chymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd yn adran A a graddau STEM rhan amser yn adran B.

6. Mae'r ddogfen hon yn trafod y materion hyn ac yn gofyn am eich safbwyntiau. Y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yw 25 Mai 2016.

---

[1] Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at 'fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru', sef y term a ddefnyddir yn y rheoliadau sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr (Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015). Mae rhai ystadegau yn defnyddio'r term 'myfyrwyr sy'n hanu o Gymru', gan mai dyma'r term a ddefnyddir yn y ffynhonnell.

[2] http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy

# A. Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd

## Y sefyllfa bresennol

7. Mae yna 16,200 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn astudio ar gyfer cymwysterau ôl-radd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU (tabl 1). Mae'r rhan fwyaf, 83%, yn dilyn cyrsiau a addysgir. Mae nifer y myfyrwyr benywaidd yn sylweddol fwy na nifer y myfyrwyr gwrywaidd, er bod yna lai o fenywod yn dilyn cyrsiau ymchwil ôl-radd.

**Tabl 1**

Nifer y myfyrwyr ôl-radd sy'n hanu o Gymru a gofrestrodd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU, 2013/14.

| Ymchwil Ôl-radd | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm |
| Llawn-amser | 945 | 800 | 1,745 |
| Rhan-amser ac arall | 530 | 525 | 1,055 |
| Cyfanswm | 1,475 | 1,320 | 2,800 |
| **Ôl-radd a addysgir** | | | |
| | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm |
| Llawn-amser | 1,680 | 2,630 | 4,310 |
| Rhan-amser ac arall | 3,350 | 5,730 | 9,085 |
| Cyfanswm | 5,035 | 8,360 | 13,400 |
| Cyfanswm | 6,510 | 9,680 | 16,200 |


Ffynhonnell: 'Cofrestriadau Addysg Uwch ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU yn ôl lefel, dull, rhyw ac oedran'. StatsCymru. Ffigyrau wedi cael eu rowndio i'r 5 agosaf

8. Mae nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dilyn cyrsiau ôl-radd wedi amrywio ychydig yn unig yn ystod y pum mlynedd diwethaf (ffigwr 1). Mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn adrodd bod gostyngiad o 17% wedi bod yn nifer y cofrestriadau ôl-radd ymysg myfyrwyr o Loegr (a'r UE) yn ystod y tair blynedd yn dilyn 2010/11[3], sefyllfa nad yw'n ymddangos iddi gael ei hailadrodd ymysg myfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

[3] *Consultation on support for postgraduate study*, t.9. Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y DU, 2015.

**Ffigwr 1**

Nifer y myfyrwyr ôl-radd sy'n hanu o Gymru a gofrestrodd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU, 2009/10-2013/14.




Ffynhonnell: 'Cofrestriadau Addysg Uwch ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU yn ôl lefel, dull, rhyw ac oedran'. StatsCymru.

9. Mae nifer y myfyrwyr ôl-radd sy'n hanu o Gymru mewn Sefydliadau Addysg Uwch wedi bod yn eithaf cyson rhwng 2007/08 a 2013/14 (ffigwr 2). Roedd yna 11,465 o fyfyrwyr ôl-radd yn hanu o Gymru mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2013/14.

**Ffigwr 2**

Nifer y myfyrwyr ôl-radd sy'n hanu o Gymru a gofrestrodd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, 2007/08-2013/14.




Ffynhonnell: 'Cofrestriadau addysg uwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl preswylfan, blwyddyn a dull'. StatsCymru.

10. Myfyrwyr ôl-radd sy’n hanu o Gymru yw’r grŵp unigol mwyaf o fyfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru (tabl 2). Myfyrwyr o wledydd Asia yw’r ail grŵp mwyaf, a rhai o Loegr yw’r trydydd grŵp mwyaf.

**Tabl 2**


Cofrestriadau ôl-radd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl gwlad wreiddiol y myfyrwyr, 2013/14.

| | | % |
|---|---|---|
| Cymru | 11,465 | 39.5 |
| Lloegr | 4,925 | 17.0 |
| Yr Alban | 200 | 0.7 |
| Gogledd Iwerddon | 100 | 0.3 |
| Arall o’r DU | 25 | 0.1 |
| Y Deyrnas Unedig | 16,715 | 57.6 |
| | | |
| Arall o’r UE | 1,655 | 5.7 |
| Arall o Ewrop | 340 | 1.2 |
| Affrica | 1,850 | 6.4 |
| Asia | 6,630 | 22.9 |
| Awstralasia | 85 | 0.3 |
| Y Dwyrain Canol | 1,105 | 3.8 |
| Gogledd America | 530 | 1.8 |
| De America | 90 | 0.3 |
| Anhysbys o’r tu allan i’r UE | - | - |
| Cyfanswm | 28,995 | 100 |

Ffynhonnell: ‘Cofrestriadau addysg uwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl preswylfan, blwyddyn a dull’. StatsCymru. Ffigyrau wedi cael eu rowndio i'r 5 agosaf

11. Mae cyfanswm y cofrestriadau ôl-radd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru wedi gostwng o frig diweddar yn 2010/11, ond maent yn uwch nag oeddent yn 2007/08 (ffigwr 3).


**Ffigwr 3**
Cofrestriadau ôl-radd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, 2007/08-2013/14.




Ffynhonnell: 'Cofrestriadau addysg uwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl preswylfan, blwyddyn a dull'. StatsCymru.

12. Mae graddau Meistr a addysgir yn cyfateb i 53% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ac mae graddau ymchwil yn cyfateb i 17% ychwanegol (ffigwr 4).

**Ffigwr 4**
Cofrestriadau ôl-radd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ôl lefel, 2013/14.





Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

13. Roedd 60% o'r holl gofrestriadau ôl-radd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2013/14 ar gyfer graddau meistr a addysgir, ac roedd 16% arall wedi cofrestru ar gyfer graddau ymchwil. Roedd yna 6,030 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn astudio gradd Meistr a addysgir, 1,820 yn astudio ar gyfer graddau ymchwil a 3,255 yn astudio ar gyfer cymwysterau ôl-radd eraill mewn Sefydliadau Addysg Uwch bryd hynny[4].

14. Bu i Adran Cyflogaeth a Dysgu Llywodraeth Gogledd Iwerddon gyfrifo cofrestriadau ôl-radd yn ôl pob 1,000 o'r boblogaeth[5]. Mae'r canlyniadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn fwy tebygol o ddilyn astudiaethau ôl-radd na'r cyfartaledd yn y DU (ffigwr 5).

**Ffigwr 5**

Cofrestriadau ôl-radd am bob 1,000 o'r boblogaeth, 2013.




Ffynhonnell: *Consultation on part-time and postgraduate student finance,* t.48. Adran Cyflogaeth a Dysgu y DU, 2014.

## Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd

15. Mae Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr gradd ar ffurf grantiau a benthyciadau er mwyn eu galluogi i i) dalu costau ffioedd a godir gan ddarparwyr addysg uwch a ii) helpu i dalu am gostau byw. Dim ond cymorth cyfyngedig mae Gweinidogion Cymru yn ei ddarparu i fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs astudio ôl-radd ar hyn o bryd:

---

[4] Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

[5] *Consultation on part-time and postgraduate student finance.* Adran Cyflogaeth a Dysgu y DU, 2014.

- mae Lwfans Myfyrwyr Anabl yn darparu cymorth i fyfyrwyr cymwys tuag at eu hanghenion ymarferol; ac

- efallai bod myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau ymarfer dysgu ôl-radd yn gymwys i dderbyn cymorth.

## Y ddadl o blaid newid

16. Sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer dilyn cyrsiau gradd fu prif flaenoriaeth polisi pob un o'r gweinyddiaethau yn y DU. Mae cymorth ar gael er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gymwys yn ôl gallu a chyrhaeddiad yn gallu cael mynediad i addysg uwch, ac nad yw amgylchiadau economaidd unigol yn rhwystr.

17. Fodd bynnag, mae yna gydnabyddiaeth gynyddol wedi cael ei rhoi i bwysigrwydd sgiliau lefel uwch i'r economi, ac felly i astudiaethau ôl-radd. Hefyd, mae yna beth tystiolaeth sy'n dangos y gall diffyg cymorth i astudiaethau ôl-radd gyfyngu ar symudedd cymdeithasol.

### Ystyriaethau economaidd a chymdeithasol

18. Mae rhagolygon a dadansoddiad o'r economi a'r farchnad lafur yn dangos y disgwylir y bydd cynnydd yng nghyfran y rhai sy'n gweithio sydd â chymwysterau ôl-radd. Nid yw'n eglur faint o hyn fydd o ganlyniad i effeithiau cyflenwad (wrth i unigolion geisio cymwysterau ôl-radd) neu i effeithiau galw (wrth i'r sgiliau sydd eu hangen o fewn galwedigaethau symud i lefelau hyd yn oed yn uwch) ond mae'r duedd gyffredinol yn amlwg. Mae Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU yn rhagdybio y bydd tua 4.7m o unigolion â chymwysterau ôl-radd yn cael eu cyflogi yn y DU erbyn 2022, o'i gymar â 3.0m yn 2010 - twf o 56%[6]. Disgwylir y bydd gan tua 14% o'r gweithlu cyflogedig yng Nghymru gymhwyster ôl-radd erbyn 2020[7], sy'n debyg i'r ganran yn Lloegr (15%) ac yn uwch na'r ganran yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon (12% ac 11% yn ôl eu trefn). Mae ôl-raddedigion yn derbyn premiwm cyflog sy'n uwch na rhai â graddau cyntaf yn unig (9.4% ar gyfer gradd Meistr a 16.2% ar gyfer Doethuriaethau[8]).

---

[6] *Working Futures 2012-2022 Evidence Report 83*. Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, 2014.
[7] *Working Futures Report for Wales*. Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, 2012.
[8] *BIS research paper 45. The returns to higher education qualifications*. Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y DU, 2011.

19. Ceir peth tystiolaeth sy'n dangos bod cysylltiad rhwng addysg ôl-radd ag incwm. Fel yr ysgrifennodd Machin a Murphy[9]:

> *'Gradd gyntaf dda yw'r porth tuag at gwrs Meistr neu PhD, y mae'r ffigyrau hyn yn dangos fydd yn cynhyrchu enillion ychwanegol sylweddol gydol oes o'u cymharu â deiliad gradd gyntaf yn unig. Ar hyn o bryd y rhai sydd eisoes o gefndiroedd breintiedig sy'n elwa o'r enillion hyn.'*

20. Maent hefyd yn nodi efallai bod diffyg cymorth ariannol wrth gychwyn cwrs ôl-radd yn dechrau rhwystro rhai o gefndiroedd tlotach rhag ymgymryd ag astudiaethau pellach[10]. Mae ymchwil dilynol gan Lindley a Machin[11] yn awgrymu bod y cysylltiad rhwng cefndir breintiedig a chaffael cymwysterau ôl-radd yn cyfyngu ar symudedd cymdeithasol. Gall torri'r cysylltiad hwn helpu i wella symudedd cymdeithasol.

21. Bu i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau gynnal ymchwil[12] er mwyn asesu, ymhlith pethau eraill, y rhwystrau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu rhag dilyn cyrsiau ôl-radd. Bu i 34% o'r holl ymatebwyr gyfeirio at ddiffyg cyllido digonol, a chododd hynny i 41% ymysg rhai 25 oed neu ieuengach.

## Adolygiad Diamond

22. Ar 18 Tachwedd 2013, cyhoeddodd Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, bod yr Athro Syr Ian Diamond, Is-ganghellor Prifysgol Aberdeen, wedi cytuno i gadeirio Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru. Gan gydnabod cynnydd ym mhwysigrwydd astudiaethau ôl-radd, gofynnwyd i'r Athro Diamond, ymysg pethau eraill, adolygu sut yr hyrwyddir cyfleoedd dysgu ôl-radd yng Nghymru, ac ymysg myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru.

23. Disgwylir y bydd yr Athro Diamond yn cyhoeddi ei adroddiad yn 2016. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn rhagdybio canlyniad adolygiad Diamond. Cyhoeddwyd adroddiad interim gan yr Athro Diamond[13], sy'n crynhoi'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r adolygiad ac sy'n disgrifio nifer o 'themâu' newydd. Mewn perthynas â darpariaeth ôl-radd (t. 102-105), mae'r adroddiad yn nodi tair thema:

---

[9] *The social composition and future earnings of postgraduates*, t.13. The Sutton Trust, 2010.
[10] The Sutton Trust, 2010.
[11] *The postgraduate premium: revisiting trends in social mobility and educational inequalities in Britain and America*. The Sutton Trust, 2013.
[12] *Higher education. Annex 5: evidence related to age eligibility criteria*. Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y DU, 2015.
[13] *Adolygiad o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru. Adroddiad Interim*. http://gov.wales/docs/dcells/publications/151215-review-of-higher-education-funding-and-student-finance-arrangements-in-wales-interim-report-cy.pdf

- Pryder bod buddsoddi mewn darpariaeth ôl-radd wedi gostwng yn is na gweddill y DU a bod hynny'n bygwth niweidio'r sector ac effeithio ar berfformiad economaidd.

- Pryder ynglŷn â cholli cyllid ar gyfer myfyrwyr ôl-radd llawn amser o 2014/15.

- Y gred fod Cymru yn wynebu anfantais gymharol oherwydd y bydd yn wynebu her sylweddol wrth ddenu myfyrwyr ôl-radd yn y dyfodol os na fydd yn gwella mynediad i gyllid i fyfyrwyr, o ganlyniad i'r gystadleuaeth fydd yn ei hwynebu o gyfeiriad cynlluniau cyllido mewn rhannau eraill o'r DU.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

24. Pwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2016 a bydd yn rhoi dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill). Bydd cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd yn cyfrannu at ddau o'i saith amcan llesiant. 'Cymru lewyrchus', a 'Chymru sy'n fwy cyfartal'.

25. Mae'r amcan o greu Cymru fwy llewyrchus yn disgrifio cymdeithas 'arloesol, gynhyrchiol' 'sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig'. Byddai buddsoddi mewn addysg ôl-radd yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcan hwn.

26. Mae'r amcan o greu Cymru fwy cyfartal yn darlunio 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau'. Byddai darparu cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd yn helpu i wireddu'r amcan hwn, drwy alluogi'r rhai na fyddai fel arall yn gallu dilyn cwrs ôl-radd, oherwydd eu hamgylchiadau ariannol, i wneud hynny.

27. Hefyd, gallai poblogaeth fwy medrus sydd wedi derbyn addysg uwch arwain at fuddion cymdeithasol ychwanegol ('allanoldebau') fyddai'n sail i lwyddiant yr amcanion llesiant eraill[14].

[14] Mae'r enillion economaidd preifat (o ganlyniad i gyflogau uwch) o ganlyniad i astudiaethau ôl-radd yn gymharol hysbys (gweler, er enghraifft, *The returns to higher education qualifications. BIS Research paper number 45,* Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y DU, 2011). Mae'r manteision cymdeithasol o ganlyniad i addysg uwch wedi bod yn destun ymchwil academaidd ers amser. Mae'n ymddangos nad oes cymaint o lenyddiaeth ynglŷn â'r manteision cymdeithasol o ganlyniad i astudiaethau ôl-radd yn benodol.

**Crynodeb: y ddadl o blaid newid**

28. Mae'r dystiolaeth ynglŷn â phwysigrwydd economaidd cynyddol cymwysterau ôl-radd, y cysylltiad rhwng cyfoeth, astudiaethau ôl-radd blaenorol a symudedd cymdeithasol, a'r sylw cynnar gan adolygiad Diamond ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr, yn cyflwyno sail resymegol argyhoeddiadol o blaid darparu cymorth ariannol. Gall darpariaeth o'r fath gefnogi llwyddiant amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## Ein cynnig

**Polisi interim**

29. Oherwydd bod adolygiad Diamond yn parhau i gael ei gynnal, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu datblygu polisi interim, fydd yn cael ei adolygu maes o law. Byddai'r polisi yn cefnogi myfyrwyr fydd yn cychwyn ar eu hastudiaethau ôl-radd yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

**Amcanion**

30. Dylai polisi interim ar gyfer cefnogi astudiaethau ôl-radd:

- helpu i dorri'r cysylltiad rhwng incwm ac addysg ôl-radd;
- cynyddu nifer y bobl sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ôl-radd; a
- bod yn syml i'w weithredu.

**Y polisi**

31. Mae'r polisi a gynigir yn debyg iawn i'r hyn fydd yn cael ei weithredu yn Lloegr. Mae nodweddion y polisi yn cael eu rhestru yn nhabl 3. Trafodir y prif nodweddion isod.

32. Bwriad y polisi yw galluogi myfyrwyr fyddai fel arfer yn gymwys i dderbyn cymorth israddedig i fod yn gymwys i dderbyn cymorth ôl-radd, er mwyn sicrhau cysondeb polisi a dilyniant ar gyfer y myfyriwr. Mae unigolion all fod yn gymwys yn cynnwys rhai sydd wedi setlo yn y DU ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru; rhai sy'n hanu o'r UE neu aelodau o deulu un sy'n hanu o'r UE; neu os oes ganddynt statws preswyl ffoadur, neu warchodaeth ddyngarol; gweithiwyr mudol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; plant i rywun sy'n hanu o'r Swistir; neu blant gweithiwr o Dwrci. Gall y meini prawf preswyl

adlewyrchu'r meini prawf ar gyfer cymorth israddedig[15]. Byddai'r cymorth yn cael ei ddarparu ar ffurf benthyciad o £10,000. Byddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio gan y myfyriwr er mwyn cefnogi ei astudiaethau.

33. Bydd raid i gyrsiau ôl-radd gael eu dylunio gan Weinidogion Cymru os bwriedir i fyfyrwyr fod yn gymwys i dderbyn cymorth. Mae'r polisi sy'n sail i'r dull o ddynodi cyrsiau israddedig ar gyfer derbyn cymorth i fyfyrwyr yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, a bydd y dull o ddynodi cyrsiau ôl-radd hefyd yn wahanol. Bydd raid i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru fod yn elusennau a chael pwerau dyfarnu graddau fel y gall myfyrwyr sy'n dilyn eu cyrsiau ôl-radd fod yn gymwys i dderbyn cymorth. Bydd cyrsiau ôl-radd a gynigir gan ddarparwyr 'a ariennir gan yr awdurdod'[16] yn Lloegr yn cael eu dynodi, a bydd darpariaeth debyg yn cael ei threfnu ar gyfer cyrsiau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Y bwriad yw sicrhau bod gan fyfyrwyr ddewis eang o ddarpariaeth ôl-radd, a bod darparwyr yn cael eu rheoleiddio'n ddigonol ac yn gweithredu er lles y cyhoedd, sef egwyddorion sy'n sail i'r dull o ddynodi pob cwrs addysg uwch gan  Weinidogion Cymru.

34. Byddai'n ddisgwyliedig i fyfyrwyr gychwyn ad-dalu'r benthyciad pan fo'u hincwm yn cyrraedd £21,000 y flwyddyn (bydd y trothwy hwn yn cael ei rewi tan 2021). Byddai'r benthyciadau yn cael eu talu'n gydamserol ag unrhyw ddyledion ôl-radd sydd heb eu talu ar gyfradd o chwech y cant o'r cyflog. Y gyfradd llog fyddai'r mynegai prisiau manwerthu a thri y cant yn ychwanegol.

35. Un agwedd weinyddol allweddol sy'n wahanol i'r hyn a weithredir yn y system cymorth i israddedigion yw'r cynnig i dalu i fyfyrwyr mewn tri rhandaliad, er mwyn eu galluogi i reoli eu harian yn well. Mae'n annhebygol y bydd hyn yn arwain at yr effaith a ddymunir oni bai fod y darparwr yn derbyn taliadau ffioedd mewn rhandaliadau tebyg.

---

[15] Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015 (OS 2015/54), fel y'u diwygiwyd, yn rhagnodi pa israddedigion allai fod yn gymwys i gael cymorth i astudio. Gweler, yn benodol, Ran 2 Atodlen 1.
[16] Gweler Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) 2014 (OS 2014/2765).

**Tabl 3**
Cymorth a gynigir ar gyfer astudiaethau ôl-radd

**Y MYFYRIWR**

Ar gael i bob myfyriwr sydd wedi setlo yn y DU ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru; rhai sy'n hanu o'r UE neu aelodau o deulu un sy'n hanu o'r UE; rhai â statws preswyl ffoadur, neu warchodaeth ddyngarol; gweithwyr mudol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; plant i rai sy'n hanu o'r Swistir; neu blant gweithiwr o Dwrci.

Hyd at 60 oed.

Mae'n rhaid iddynt beidio dal cymhwyster ôl-radd o'r un lefel.

**Y CWRS**

Cyrsiau ôl-radd a gynigir gan ddarparwyr yn y DU sy'n bodloni meini prawf dynodi penodol.

Gradd Meistr a addysgir, yn cynnwys cyrsiau 'proffesiynol'.

Graddau Meistr a addysgir o bell.

Graddau ymchwil on entry.

Llawn-amser a rhan-amser gyda dwyster o 50% neu fwy.

**Y BENTHYCIAD**

Benthyciad o £10,000 er mwyn cefnogi astudiaethau llawn-amser.

Fe'i telir yn uniongyrchol i'r myfyriwr.

Mae ad-daliad yn amodol ar incwm; bydd ad-daliadau yn cychwyn ar £21,000 (a bydd y trothwy hwn yn cael ei rewi tan 2021).

Fe'i telir mewn tri rhandaliad i fyfyrwyr ôl-radd llawn-amser ar gyrsiau blwyddyn.

Fe'i rhennir yn ddau (£5,000 y flwyddyn) ac fe'i telir mewn tri rhandaliad bob blwyddyn i fyfyrwyr ôl-radd rhan-amser sy'n dilyn cyrsiau dwy flynedd a myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar ddwyster o 50%.
Fe'i telir i'r myfyriwr pan fo'r Sefydliad Addysg Uwch yn cadarnhau ei fod yn mynychu'r sefydliad hwnnw.

Codir llog ar gyfradd Mynegai Prisiau Manwerthu +3%.

Ad-daliad yn 6% o gyflog sy'n uwch na'r trothwy o Ebrill 2019.

Bydd yr ad-daliadau'n gydamserol ag unrhyw ad-daliadau am ddyled israddedig.

Bydd unrhyw ddyled ôl-radd fydd heb eu casglu yn cael eu dileu dri deg mlynedd ar ôl y dyddiad y cychwynnir codi llog.

**Manteision**

36. Mae Gweinidogion Cymru yn credu bod y polisi interim hwn:

- yn cael gwared â rhwystr allweddol - cyllid - rhag dilyn cwrs ôl-radd;
- yn cynyddu'r galw am addysg ôl-radd, gan wella sgiliau ar y lefel uchaf a hyrwyddo symudedd cymdeithasol;
- yn syml i'w weithredu; ac
- yn darparu sicrwydd mewn perthynas â pholisi nes bod adolygiad Diamond yn cael ei gyhoeddi a bod ei argymhellion hirdymor yn cael eu hystyried.

**Costau**

37. Mae yna gost yn gysylltiedig â'r polisi hwn:

- efallai y bydd yna fwy o gost i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gostau 'CChA' ychwanegol[17];
- bydd yna gostau gweithredu a chostau gweinyddol cylchol; a
- bydd myfyrwyr yn mynd i ddyled, sy'n debygol o fod yn ychwanegol at ddyled astudiaethau israddedig.

**Ffioedd ar gyfer astudiaethau ôl-radd**

38. Nid yw ffioedd ôl-radd yn cael eu rheoleiddio. Mae ffioedd israddedig yn cael eu rheoleiddio (ar gyfer pobl benodol ar gyrsiau penodol[18]). Mae rheoleiddio ffioedd yn sicrhau bod addysg uwch yn parhau i fod yn fforddiadwy.

39. Mae'n bosibl y gallai ffioedd ar gyfer astudiaethau ôl-radd godi oherwydd y byddai cymorth i fyfyrwyr ar gael. Nid yw Gweinidogion Cymru yn disgwyl gweld ffioedd yn cynyddu'n gyffredinol, ond maent yn cydnabod bod rhai cyrsiau yn sylweddol ddrutach i'w cynnal nag eraill[19]. Gall cynnydd gormodol o ran ffioedd negyddu buddion y polisi hwn, drwy arwain at ostwng y galw. Bydd

[17] Mae ffioedd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau yn darogan y *'subsidy that the Government implicitly pays to students through favourable terms connected to student loans'* (*Student Loans. Third report of session 2014-15*, t.9. Pwyllgor Busnes, Arloesi a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin, Gorffennaf 2014). Mae hyn yn cynnwys y benthyciadau hynny na chânt byth eu had-dalu yn ogystal â'r ffaith bod y gyfradd log a godir yn is na chost cyfalaf y Llywodraeth.

[18] Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 (OS 2015/1484).

[19] *A review of the cost of postgraduate taught provision.* KPMG, 2014.

Gweinidogion Cymru yn monitro unrhyw ganlyniadau anfwriadol fydd yn deillio o'r polisi hwn.

## Effaith

40. Prif effaith y cynnig hwn fydd cynyddu nifer y bobl fydd yn astudio ar gyfer, ac yn llwyddo i ennill, cymhwyster Meistr ôl-radd. Bydd hyn yn gwella lefel sgiliau'r gweithlu ac yn helpu o ran ateb y galw am sgiliau uwch.

41. Bydd cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd yn cyfrannu at ddau o saith amcan llesiant - 'Cymru lewyrchus', a 'Chymru sy'n fwy cyfartal' - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

42. Dangosodd Tabl 1 fod yna nifer sylweddol fwy o fenywod na gwrywod yn astudio ar gyfer cymwysterau ôl-radd. Nid yw'n eglur pam fod hyn yn wir. Ni ddyluniwyd y polisi a gynigir er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'n ymddangos y byddai'n annhebygol y byddai'r polisi hwn yn gwaethygu'r gwahaniaeth hwn, ond bydd y niferoedd yn cael eu monitro.

## Gweithredu

43. Yn dilyn ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau fyddwn yn eu gwneud i'r cynnig hwn, rydym yn bwriadu rhoi'r trefniadau newydd ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Bydd angen is-ddeddfwriaeth ac rydym yn disgwyl y byddwn yn cyflwyno rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynnar yn 2017, gyda'r bwriad o ganiatáu i geisiadau am gymorth gael eu cyflwyno i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ôl amserlen sy'n debyg i'r hyn a weithredir ar gyfer cymorth i israddedigion.

### Ein cwestiynau ni

**1** A ydych yn cytuno y dylai cymorth gael ei roi ar gyfer astudiaethau ôl-radd?

**2** A ydych yn cytuno â'r pecyn cymorth fel y'i hamlinellir? A oes unrhyw agwedd y buasech yn ei newid? Pam?

**3** A ydych yn credu y byddai unrhyw grwpiau penodol yn wynebu anfantais o ganlyniad i'r polisi hwn?

# B. Astudio blaenorol a chymorth ar gyfer astudiaethau rhan-amser

## Y sefyllfa bresennol

44. Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr sydd â gradd Anrhydedd yn y DU neu gymhwyster cyfatebol yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol ar gyfer astudiaethau israddedig pellach. Gelwir hon yn rheol 'cymhwyster lefel gydradd'. Y rhesymeg sefydledig y tu ôl i hyn yw bod y myfyrwyr hynny eisoes wedi cael mynediad i gymorth ariannol wrth ymgymryd â'u gradd gyntaf, naill ai ar ffurf grantiau neu fenthyciadau, neu ar ffurf cyllid cyhoeddus drwy'r sefydliadau addysg uwch eu hunain. Mae yna rai cyrsiau penodol sy'n eithriad i'r rheol hon. Mae'r eithriadau hyn ar hyn o bryd yn cynnwys cyrsiau ôl-radd penodol, megis Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), a rhai cyrsiau israddedig mwy penodol y mae gradd Anrhydedd yn amod mynediad (er enghraifft, cyrsiau meddygol a deintyddol i raddedigion). Mae cymorth cyfyngedig ar gael ar gyfer y cyrsiau hyn o dan amgylchiadau penodol.

## Y ddadl o blaid newid


45. Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 cyflwynwyd eithriad newydd i'r rheol gyffredinol yn Lloegr. Nawr gall myfyriwr cymwys, sydd fel arfer yn byw yn Lloegr, sydd â gradd Anrhydedd o sefydliad addysgol yn y DU, ac sy'n cychwyn ar gwrs gradd Anrhydedd rhan amser mewn peirianneg, technoleg neu wyddoniaeth cyfrifiaduron[20], wneud cais am gymorth tuag at ffioedd rhan amser y cwrs newydd.

46. Ystyrir bod peirianneg, technoleg a gwyddoniaeth cyfrifiaduron yn bynciau o bwysigrwydd i'r economi. Efallai y bydd cynyddu nifer y graddedigion drwy gymell mwy i ymgymryd â chyrsiau gradd rhan amser yn cefnogi cyflogwyr a chyflogaeth yn y diwydiannau hyn. Efallai y bydd ymlacio'r cyfyngu blaenorol ar astudiaethau rhan-amser yn cynorthwyo'n arbennig y rhai sy'n cael eu cyflogi gan y diwydiannau hyn ond nad oes ganddynt gymwysterau gradd perthnasol.

47. Mae'r data (ffigwr 6) yn dangos bod niferoedd cymharol dda yn dilyn cyrsiau gradd rhan amser mewn peirianneg a thechnoleg, ond bod y sefyllfa ychydig yn wannach mewn perthynas â gwyddoniaeth cyfrifiaduron.

[20] Codau JACS sy'n dechrau gyda H, I a J. Gweler http://www.hesa.ac.uk/content/view/1787/281/

**Ffigwr 6**
Astudiaethau rhan-amser ymhlith israddedigion sy'n hanu o Gymru, 2013/14




Ffynhonnell: 'Cofrestriadau Addysg Uwch ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU yn ôl pwnc, lefel a dull astudio.' StatsCymru.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

48. Dyluniwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2016 a bydd yn rhoi dyletswyddau penodol ar Lywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill). Gall darparu cymorth ar gyfer astudiaethau rhan-amser yn y pynciau hyn i'r rhai sydd â chymwysterau ar lefel gyfatebol gyfrannu at amcan llesiant 'Cymru lewyrchus'.

49. Rhan o weledigaeth amcan Cymru lewyrchus, ymysg pethau eraill, yw 'poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth'. Gall darparu cymorth ar gyfer astudiaethau rhan-amser yn y pynciau technegol hyn gynorthwyo i sicrhau bod gan raddedigion sgiliau y mae galw mawr amdanynt, gan annog proses o greu cyfoeth a chyflogaeth.

## Ein cynnig

50. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu creu eithriad tebyg, fydd yn dod i rym yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

51. Bydd gan fyfyrwyr fynediad i fenthyciadau i dalu am ffioedd. Hefyd, gall myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, yn ddibynnol ar lefel dwyster eu cyrsiau, fod yn gymwys i dderbyn ystod o grantiau a dargedir, fel yn achos myfyrwyr rhan amser eraill. Maent yn cynnwys:

- grant cwrs sy'n destun prawf modd o hyd at £1,155;
- Grant Gofal Plant er mwyn talu am 85% o gostau gofal plant;
- Lwfans Dysgu i Rieni sy'n destun prawf modd;
- Grant Oedolion sy'n Ddibynyddion; a
- Lwfansau Myfyrwyr Anabl.

52. Mae'r pedwar cyntaf yn benodol ar gyfer Cymru ac fe'u dyluniwyd i annog mwy o fyfyrwyr sy'n byw fel arfer yng Nghymru i ymgymryd ag addysg uwch ran amser. Mae'r cynnig presennol i ddiystyru cymwysterau lefel cyfatebol yn dangos ymrwymiad ychwanegol gan Weinidogion Cymru i astudiaethau rhan-amser.

53. Byddai'r benthyciadau'n cael eu had-dalu o dan yr un telerau ac amodau â myfyrwyr rhan amser eraill, h.y. byddai'r ad-daliadau yn cychwyn yn ystod y mis Ebrill bedair blynedd ar ôl i'r cwrs gychwyn, neu'r mis Ebrill ar ôl i'r myfyriwr orffen neu adael y cwrs, pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf. Byddai ad-daliadau'r myfyriwr ond yn cychwyn pan fydd ei incwm yn fwy na £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn[21].

54. Ceir esboniad llawn o'r pecyn cymorth rhan amser presennol mewn amrywiaeth o wybodaeth, cyngor a chanllawiau gaiff eu diweddaru'n flynyddol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru[22]. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod y gall adolygiad Diamond gynnig argymhellion ynglŷn â chymorth tuag at gyrsiau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (fyddai'n cynnwys y cyrsiau hyn). Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn llawn bryd hynny, a bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn dilyn hynny.

## Effaith

55. Mae'r angen i fwy o bobl fod yn gymwys yn y pynciau hyn er mwyn cryfhau economi Cymru wedi cael ei gydnabod a'i gofnodi. Nid yw'n ddisgwyliedig i'r polisi hwn achosi newid dramatig mewn arferion astudio. Fodd bynnag, yn achos y myfyrwyr hynny sydd efallai'n ystyried dychwelyd i

[21] http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/media/9339/sfw_pt_repayment_qg_1516_cy_d.pdf
[22] http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/myfyrwyr-rhan-amser/myfyrwyr-newydd-201516.aspx

addysg uwch yn rhan amser, efallai y bydd y newid hwn yn cael gwared â rhai o'r rhwystrau ariannol sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd o leiaf. Hefyd, gall fod yn rhesymol disgwyl iddo gyfrannu at gynnydd mewn cyfraddau cadw myfyrwyr a fyddai fel arall efallai wedi canfod bod eu hastudiaethau yn ariannol anghynaladwy.

## Gweithredu

56. Yn dilyn ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau fyddwn yn eu gwneud i'r cynnig hwn, rydym yn bwriadu rhoi'r trefniadau newydd ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Bydd angen is-ddeddfwriaeth ac rydym yn disgwyl y byddwn yn cyflwyno rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynnar yn 2017.

### Ein cwestiynau ni

**4** A ydych yn cytuno ei bod yn fuddiol ymestyn cymhwysedd i dderbyn cefnogaeth statudol i fyfyrwyr sydd â chymwysterau lefel cyfatebol ar y cyrsiau peirianneg, technoleg neu wyddoniaeth cyfrifiaduron hyn?

**5** A ydych yn credu y byddai unrhyw grwpiau penodol yn wynebu anfantais o ganlyniad i'r polisi hwn?

**6** A oes yna unrhyw gyrsiau eraill yr ydych yn credu y dylid eu hystyried i'w cynnwys yn y cynllun hwn yn y dyfodol?